

Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Cymunedol

Gwybodaeth i Gleifion a Pherthnasau

Beth yw gofal lliniarol?

Mae gofal lliniarol yn cefnogi cleifion sydd ag afiechydon sy'n cyfyngu ar fywyd pan efallai na fydd triniaethau'n gallu darparu iachâd. Mae'n canolbwyntio ar geisio sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer cleifion, gan roi cefnogaeth i'r bobl sy'n bwysig iddynt, rheoli poen a symptomau eraill, a darparu gofal a chefnogaeth holistaidd. Gall atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol ym maes gofal lliniarol, a gofal ganddynt, ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod salwch.

Pwy ydym ni

Mae'r Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Cymunedol yn gweithio yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae ein swyddfeydd yn Unedau Gofal Lliniarol Arbenigol Tŷ Olwen (Ysbyty Treforys) ac yn Y Rhosyn (Ysbyty Castell-nedd Port Talbot). Mae'r Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Cymunedol yn cynnwys:

- Meddygon meddygaeth liniarol
- Nyrsys clinigol arbenigol
- Gweithwyr cymorth gofal iechyd
- Metron gofal lliniarol arbenigol
- Personél gweinyddol
- Timau therapïau (yn cynnwys ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol)

Eich Meddyg Teulu fydd eich prif gyswllt o hyd ar gyfer eich gofal meddygol. Byddwn yn gweithio gyda'ch Meddyg Teulu, yn ogystal â nyrsys ardal ac arbenigwyr mewn ysbytai, i ddarparu cyngor arbenigol i'ch cefnogi chi a'r rhai sy'n agos atoch chi.

Rydym yn anelu i:

- Ddarparu cyngor am sut i reoli poen a symptomau corfforol eraill (er enghraifft, salwch neu ddiffyg anadl).
- Cynnig cefnogaeth emosiynol i chi a'r rhai sy'n bwysig i chi.
- Trafod pryderon am eich salwch a'ch triniaeth.
- Eich helpu i gynllunio gofal ar gyfer y dyfodol.
- Gadael i chi wybod am y gwasanaethau defnyddiol eraill sydd ar gael yn eich ardal.
- Cyfathrebu â gweithwyr gofal iechyd eraill sy'n ymwneud â'ch gofal.

Beth i'w ddisgwyl gennym ni

Rydym yn cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb yn ein clinig ar gyfer cleifion allanol neu yn eich cartref / cartref gofal pan nad yw'n bosib i chi deithio i'r clinig. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth ychwanegol dros y ffôn pan fydd ei hangen, naill ai drwy eich ffonio ar adeg y cytunwyd arni neu drwy eich bod chi'n cysylltu ar ein llinell ffôn benodol.

Bydd ein cyfarfod cyntaf yn canolbwyntio ar eich teimladau a'ch pryderon. Bydd gennych arweinydd proffesiynol penodol, ond efallai y bydd gwahanol aelodau o'r tîm yn eich gweld neu'n cysylltu â chi. Byddwn yn gweithio gyda chi, eich teulu, eich Meddyg Teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i geisio creu cynllun sy'n canolbwyntio ar eich blaenoriaethau chi.

Cynllunio ymlaen llaw

Mae 'cynllunio gofal ymlaen llaw' yn golygu'r broses o drafod rhyngddoch chi a'r rhai sy'n bwysig i chi. Mae'n helpu eich teulu a'r tîm gofal iechyd i ddeall eich gwerthoedd, eich nodau ar gyfer eich bywyd a'ch dewisiadau o ran gofal meddygol yn y dyfodol. Gall hefyd gynnwys agweddau fel eich dewis o le ar gyfer derbyn gofal, anghenion crefyddol neu ysbrydol ac unrhyw bryderon ymarferol a allai fod gennych chi, fel trefniadau ariannol neu drefniadau ar gyfer ewyllys.

Gall cynllunio ar gyfer y dyfodol eich helpu i gael y gofal sydd ei angen arnoch a gwneud i chi deimlo bod gennych fwy o reolaeth dros eich bywyd. Mae gwybod am eich dymuniadau'n gallu ei gwneud yn haws i'ch teulu wneud dewisiadau pan efallai na fyddwch chi'n gallu gwneud y penderfyniadau eich hun. Hyd yn oed pan fyddwch chi'n cynllunio'n ofalus, gallwch addasu eich cynlluniau os byddwch yn newid eich meddwl yn nes ymlaen.

Mae cynllunio gofal ymlaen llaw yn broses wirfoddol. Os byddwch chi am ein cymorth ni neu am fwy o wybodaeth am hyn, gadewch i ni wybod.

Eich rhyddhau o'n gwasanaeth

Dros gyfnod afiechyd, bydd adegau pan fydd angen cefnogaeth fwy rheolaidd, ac ar adegau eraill bydd pethau'n fwy sefydlog. Os bydd eich cyflwr wedi bod yn sefydlog am nifer o wythnosau, byddwn yn eich rhyddhau o'n gwasanaeth. Bydd eich Meddyg Teulu a'ch nyrs ardal yn parhau i arwain eich gofal. Gallant eich atgyfeirio eto os bydd eich cyflwr yn newid a'u bod yn teimlo y byddai o fantais i chi gael ein cymorth.

Sut i gysylltu â ni

Gallwch chi gysylltu â ni ar y rhifau ar y dudalen nesaf. Efallai y gofynnir i chi adael neges. Byddwn yn eich ffonio'n ôl, ond efallai na fydd ein galwad ar yr un diwrnod.

9:00yb-4:30yp Llun i Gwener

Llinell uniongyrchol: 01792 516651

9:00yb-4:30yp Penwythnosau/Gwyliau Banc

Cysylltwch drwy switsfwrdd Ysbyty Treforys: 01792 702222

Y tu allan i'r oriau hyn, gellir cysylltu â'r gwasanaeth Meddyg Teulu y tu allan i oriau ar 111 er mwyn cael cyngor brys.

Cwestiynau a sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni. Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi i gwrdd â'ch anghenion. Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau am ein gwasanaeth. Gallwch siarad ag aelod o'r tîm yn bersonol, neu gallwch ysgrifennu at y:

Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Cymunedol

Gwasanaeth Gofal Lliniarol Arbenigol Tŷ Olwen

Heol Maes Eglwys,

Abertawe,

SA6 6NL

Efallai y byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen adborth er mwyn dysgu mwy am eich profiad o'n gwasanaeth.

Gwybodaeth a chefnogaeth bellach

Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS)

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael os hoffech siarad â rhywun nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gofal.

Ffôn: 01792 531275

Ebost: ABM.MorrisonPALS@wales.nhs.uk

Dylech fod yn ymwybodol bod eich cofnodion yn cael eu cadw'n electronig at ddibenion clinigol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel yn unol â pholisi llywodraethu gwybodaeth Cymru gyfan a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd Iechyd.